Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 330

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyllido Sefydliad Jac Lewis**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Cychwynnnwyd Sefydliad Jac Lewis yn 2019 i helpu pobl i gael mynediad cyflym at gefnogaeth iechyd meddwl a darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer teuluoedd a oedd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad. Mae’r Sefydliad wedi datblygu i fod yn ddarparwr gwasanaeth profiadol ac mae’n Rhanddeiliad allweddol yn nghyflwyniad Llywodraeth Cymru o gyfarfodydd ymateb cyflym ar draws Cymru.
Mae Heddlu Dyfed Powys ac Awdurdodau Lleol yn bartneriaid trosglwyddo wrth ddarparu cyfeiriadau i’r Sefydliad ar gyfer y rhai hynny sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad; yn profi anawsterau gyda materion cyffuriau/alcohol; mewn perygl o droseddu; dioddefwyr camdriniaeth alcohol/cyffuriau; a/neu drais domestig. Mae’r Sefydliad yn cynnig cefnogaeth o fewn 48 awr i gyfeiriad er mwyn gostwng risg niwed ac yn cefnogi unigolion a grwpiau drwy ddigwyddiad trawmatig.
Mae cyllid wedi ei ddarparu i’r Sefydliad gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2023/24 er mwyn trosglwyddo’r gwasanaeth cyfeirio ymateb cyflym. O ganlyniad i lefelau annisgwyl a digynsail o gyfeiriadau oherwydd digwyddiadau Marwolaeth Sydyn o fewn Dyfed Powys, mae’r cyllid a dderbyniwyd wedi ei ddisbyddu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
Mae Sefydliad Jac Lewis wedi gwneud cais am gyfraniad cyllido un-tro o £20,000 tan ddiwedd y flwyddyn ariannol hon (2023/24) er mwyn parhau’r gwasanaeth cyfeirio hwn a darparu cefnogaeth mawr ei hangen i gymunedau Dyfed Powys. Rhagwelir y bydd y Sefydliad yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru eto o Ebrill 2024.
Mae’r gwasanaeth yn cefnogi blaenoriaeth 1 a 2 y Cynllun Heddlu a Throseddu.

**Argymhelliad:**
Cyfrannu £20,000 i gefnogi Sefydliad Jac Lewis gyda pharhad y gwasanaeth cyfeirio hyd at 31ain Mawrth 2024.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 20/02/2024**